Cyllid & Thollau EM

# Nodiadau ar gyfer llenwi ffurflen R40


## Rhagarweiniad

Cyn i chi lenwi ffurflen R40, ewch i www.gov.uk/gwirio-angen-ffurflen-dreth i weld a oes angen i chi lenwi Ffurflen Dreth Hunanasesiad.

Os nad yw eich domisil yn y DU, dim ond incwm a gawsoch yn y DU neu incwm a drosglwyddwyd i'r DU y dylech ei gynnwys.

Os nad ydych yn preswylio yn y DU, peidiwch â defnyddio'r ffurflen hon. Defnyddiwch ffurflen R43. Ewch i www.gov.uk a chwilio am R43.

Os oes angen rhagor o help arnoch gyda'r ffurflen hon neu os oes angen hi mewn print bras, Braille neu ar ffurf arall ffoniwch: 0300 200 3300.




R40

**Peidiwch ag anfon talebau, tystysgrifau neu unrhyw ddogfennau eraill gyda'ch ffurflen. Byddwn yn cysylltu â chi os oes angen y rhain arnom.**

Bydd y nodiadau hyn yn eich helpu i lenwi ffurflen R40. Mae angen i chi lenwi hawliad ar wahân ar gyfer pob blwyddyn dreth. Mae'r flwyddyn dreth yn dechrau ar 6 Ebrill ac yn gorffen ar y 5 Ebrill canlynol.

**Os ydych yn hawlio ar gyfer chi'ch hun**
Nodwch eich enw, eich cyfeiriad llawn ynghyd â'r cod post, a'r flwyddyn yr ydych yn hawlio ad-daliad ar ei chyfer.

**Os caiff eich ffurflen ei llenwi gan rywun arall**
Chi sy'n gyfrifol am y manylion a gofnodir ar y ffurflen. Bydd angen i chi ddarllen y nodiadau ar gyfer blwch 12.2 a rhaid i chi lofnodi'r ffurflen.

**Hawlio ar gyfer rhywun sydd wedi marw**: Nodwch fanylion yr ymadawedig.
Os ydych yn delio â materion treth rhywun sydd wedi marw, gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth Dweud Wrthym Unwaith neu roi manylion y Cynrychiolydd i ni drwy ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/after-a-death

Llenwch y ffurflen hon gyda manylion incwm, lwfansau a rhyddhad yr ymadawedig. Cysylltwn â chi pan fyddwn wedi setlo sefyllfa dreth derfynol yr ymadawedig.

**Hawlio ad-daliad ar ran rhywun arall**
Os mai chi sy'n delio â'i faterion treth, rhowch ei fanylion personol ym mlychau 1.1 a 1.2. Os ydych yn llenwi'r ffurflen ar ran plentyn dan oed, gadewch flwch 1.2 yn wag (oni bai ei fod eisoes wedi cael ei rif Yswiriant Gwladol yn 15 mlwydd oed a 9 mis).

**Cyn i chi ddechrau**
Cadwch yr hyn a gofnodir gennych o fewn y blychau, a gadewch unrhyw flychau neu adrannau nad ydynt yn gymwys yn wag. Os gwnewch gamgymeriad, rhowch linell drwyddo ac ysgrifennwch yr wybodaeth gywir oddi tano.

Defnyddiwch eich manylion incwm, er enghraifft:

- llythyrau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ar gyfer budd-daliadau'r Wladwriaeth. Os telir y Lwfans Cymorth Cyflogaeth neu Bensiwn y Wladwriaeth i chi, caiff taliadau eu gwneud bob 4 wythnos, nid bob mis
- cyfriflenni banc a chymdeithas adeiladu (ar gyfer llog a geir ar gynilion)
- talebau difidend
- datganiadau incwm o ymddiriedolaethau ac ystadau
- P60 a P45 oddi wrth dalwr pensiwn neu gyflogwr

**Myfyrwyr**
Fel arfer mae incwm o ysgoloriaethau a bwrsariaethau wedi ei eithrio rhag treth.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/1619-bursary-fund

**Enillion cyfalaf**
Rhaid i chi lenwi Ffurflen Dreth Hunanasesiad os oes gennych Dreth Enillion Cyfalaf i'w thalu, a hynny hyd yn oed os yw ad-daliad treth yn ddyledus i chi ar gyfer y flwyddyn. Peidiwch â llenwi'r R40 ond yn hytrach ewch ati i gofrestru ar gyfer Hunanasesiad. Y ffordd hawsaf i gofrestru ar gyfer Hunanasesiad yw ar-lein.

Ewch i https://www.gov.uk/cofrestru-ar-gyfer-a-chyflwynoch-ffurflen-dreth-hunanasesiad/cofrestru-os-nad-ydych-yn-hunangyflogedig

## Manylion personol

1.8 **Hawliadau dros dro**

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hanner ffordd drwy'r flwyddyn hawlio ac rydych yn disgwyl cael mwy o incwm sydd heb ei drethu cyn diwedd y flwyddyn (5 Ebrill), rhowch 'X' ym mlwch 1.8. Amgaewch amcangyfrif am y flwyddyn gyfan ar gyfer pob math o incwm sydd heb ei drethu y disgwyliwch ei gael. Gallwn ofyn am gadarnhad o'r ffigurau hyn ar ôl diwedd y flwyddyn.

## Incwm cyflogaeth, pensiynau a budd-daliadau'r Wladwriaeth yn y DU

**Cyfanswm cyflog o bob cyflogaeth**

Nodwch gyfanswm y cyflog o'ch 'P60 Tystysgrif Diwedd Blwyddyn' a roddwyd i chi gan eich cyflogwr. Os gadawsoch cyn 5 Ebrill, byddwch wedi cael 'P45 (Rhan 1A Manylion cyflogai sy'n gadael gwaith)'.

Cofiwch:

2.1
- os oedd gennych fwy nag un swydd, dylech ychwanegu cyfanswm y cyflog o bob swydd yn ystod y flwyddyn dreth
- os cawsoch daliadau ychwanegol oddi wrth eich cyflogwr ar ôl cael eich P45 - dylech gynnwys y rhain ym mlwch 2.1

2.2 **Treth a ddidynnwyd o incwm ym mlwch 2.1**

Nodwch gyfanswm y dreth o'ch cyflogaeth ym mlwch 2.2. Os gwnaethoch dalu treth ar unrhyw daliadau ôl-derfynu, dylech gynnwys y dreth a ddidynnwyd ym mlwch 2.2.

2.3 **Pensiwn y Wladwriaeth**

Nodwch y swm llawn a gawsoch am y flwyddyn (nid y swm wythnosol na'r swm bob 4 wythnos), ond peidiwch â chynnwys:

- unrhyw swm ychwanegol ar gyfer plentyn dibynnol (cynhwyswch unrhyw swm am oedolyn dibynnol)
- bonws y Nadolig
- taliad Tanwydd y Gaeaf
- Lwfans Gweini
- Lwfans Byw i'r Anabl
- Credydau Pensiwn

Os gwnaethoch ohirio cael Pensiwn y Wladwriaeth, rhowch symiau unrhyw gyfandaliad a gawsoch yn 7.4 i 7.6.

2.4 Os ydych wedi cyrraedd oed ymddeol ond nad ydych yn cael Pensiwn y Wladwriaeth, rhowch 'X' ym mlwch 2.4. (Os na nodwch swm ym mlwch 2.3 na 'X' ym mlwch 2.4, byddwn yn cynnwys y pensiwn sylfaenol yn eich cyfrifiad.)

2.5 **Cyfanswm budd-daliadau trethadwy eraill y Wladwriaeth**

Os cawsoch unrhyw un o'r canlynol, ychwanegwch nhw at ei gilydd a rhowch y cyfanswm ym mlwch 2.5:

- Lwfans Profedigaeth neu Bensiwn Gweddwon
- Lwfans Rhiant Gweddw neu Lwfans Mam Weddw ac eithrio cynnydd am blentyn dibynnol
- Pensiwn Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol ac eithrio Lwfans Plant ar gyfer Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol
- Lwfans Ceisio Gwaith - os oeddech yn hawlio ar 5 Ebrill, bydd DWP yn rhoi ffurflen P60 i chi (os gwnaethoch roi'r gorau i hawlio cyn 5 Ebrill byddwch wedi cael P45. Bydd y ffurflenni hyn yn rhoi'r swm trethadwy i chi)
- Lwfans Gofalwr - dim ond swm ar gyfer person sy'n ddibynnol arnoch y dylech ei gynnwys
- Tâl Salwch Statudol, Tâl Mamolaeth Statudol, Tâl Tadolaeth Statudol, Tâl Mabwysiadu Statudol neu Tâl ar y Cyd i Rieni Mewn Profedigaeth, ond dim ond os bydd Cyllid a Thollau EF (CThEF) wedi eich talu chi (nid eich cyflogwr) - dylech anwybyddu Lwfans Mamolaeth gan nad yw'n drethadwy
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a Budd-dal Analluogrwydd trethadwy - os oeddech yn hawlio ar 5 Ebrill, bydd DWP yn rhoi P60 i chi
  - os gwnaethoch roi'r gorau i hawlio cyn 5 Ebrill byddwch wedi cael P45 - bydd y ffurflenni hyn yn rhoi'r swm trethadwy i chi (nodwch swm ar gyfer 'treth a ddidynnwyd' ym mlwch 2.6)
  - os oedd gennych fwy nag un hawliad yn ystod y flwyddyn, ychwanegwch yr holl dreth a symiau trethadwy at ei gilydd

2.7 **Cyfanswm y pensiynau a blwydd-daliadau ymddeol eraill**

Ychwanegwch at ei gilydd holl bensiynau'r DU a gawsoch yn ystod y flwyddyn, er enghraifft pensiynau galwedigaethol a blwydd-daliadau ymddeol. Bydd talwr eich pensiwn yn rhoi P60 neu ddatganiad tebyg i chi. Peidiwch â chynnwys blwydddaliadau bywyd a brynwyd yn yr adran hon; dylech eu cynnwys ym mlychau 3.1 i 3.3

## Llog a difidendau'r DU

**O 6 Ebrill 2016 ymlaen:**

- cyflwynwyd Lwfans Cynilion Personol rhydd o dreth am incwm o gynilion neu log o£1,000 ar gyfer cwsmeriaid ar y Gyfradd Sylfaenol, a £500 ar gyfer cwsmeriaid sy'n talu ar y Gyfradd Uwch - i gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/income-tax-personal-savings-allowance
- daeth y Credyd Treth Difidend i ben a chyflwynwyd lwfans rhydd o dreth gwerth £2,000 ar gyfer Incwm Difidend - i gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/treth-ar-ddifidendau

3.1 i 3.7

Dylech gynnwys incwm a gawsoch o'r canlynol:

- cymdeithasau adeiladu, banciau a derbynwyr adneuon eraill (gan gynnwys cyfrifon ar y rhyngrwyd) o gyfrifon cyfredol a chadw
- stociau'r llywodraeth - gwarantau gilt neu giltiau
- ymddiriedolaethau unedol awdurdodedig a chwmnïau buddsoddi penagored ac ymddiriedolaethau buddsoddi yn y DU
- cynnyrch Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol pan fo treth wedi ei didynnu cyn i chi ei chael (Bondiau First Option - ddim ar gael mwyach, Bondiau Twf Gwarantedig a Bondiau Incwm Gwarantedig)
- cynnyrch Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol pan na ddidynnwyd unrhyw dreth, er enghraifft, Bondiau Incwm, Cyfrif Buddsoddi a Direct Saver
- difidendau cwmnïau o stociau a chyfranddaliadau
- blwydd-daliadau bywyd a brynwyd
- buddsoddiadau sy'n talu llog nad yw ar ffurf arian parod
- taliadau llog PPI

Os oedd eich incwm o gynilion neu fuddsoddiadau'n fwy na £10,000 (cyn treth) efallai y bydd angen i chi lenwi Ffurflen Dreth.

Trethir llog a difidendau incwm y DU ar gyfraddau Treth Incwm y DU ar gyfer holl breswylwyr y DU (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) a'r Alban.

**Cynilion a buddsoddiadau ar y cyd**

Os ydych yn berchen ar fuddsoddiadau ar y cyd, nodwch eich cyfran chi yn unig.

**Parau priod a phartneriaid sifil**

Fel arfer caiff incwm o fuddsoddiadau a ddelir ar y cyd ei drin fel petai'n berchen i'r ddau ohonoch mewn cyfrannau cyfartal, a bydd pob un yn cael ei drethu ar sail hanner yr incwm. Fodd bynnag, petai'r buddsoddiadau gennych mewn cyfrannau anghyfartal, gallwch ddewis cael eich trethu ar y sail honno.

Os rhoddoch roddion i'ch plant sydd o dan 18 oed, ac mae'r rhoddion hynny'n cynhyrchu incwm sy'n fwy na £100 (cyn treth) mewn blwyddyn dreth, bydd yr incwm yn cael ei gyfrif fel eich incwm chi a rhaid i chi ei gynnwys ar eich ffurflen eich hun. Peidiwch â chynnwys llog (na difidendau na bonysau) o fuddsoddiadau treth-effeithlon, er enghraifft, ISAs a PEPs oni bai bod y rheolwr ISA neu PEP (neu'r Swyddfa Cynlluniau Cynilo, Lerpwl) wedi eich hysbysu bod yr incwm yn drethadwy. Os ydych wedi dewis cael llog o giltiau heb fod treth wedi ei didynnu, rhowch y llog ym mlwch 3.4, nid blychau 3.1 i 3.3.

**Blwydd-daliadau bywyd a brynwyd**

Rhowch eich incwm o flwydd-dal bywyd a brynwyd ym mlychau 3.1 i 3.3. Os ydych wedi llenwi ffurflen R89 neu os yw eich darparwr yn yswiriwr nad yw yn y DU, mae'n bosibl y bydd y blwydd-dal bywyd a brynwyd yn cael ei dalu'n gros, a dylid ei nodi ym mlwch 3.4.

**Incwm cronedig**

Mae gwarantau incwm cronedig yn cynnwys yr holl warantau sy'n dwyn llog, gan gynnwys cyfranddaliadau parhaol sy'n dwyn llog (PIBS) mewn cymdeithas adeiladu, stociau benthyciadau'r llywodraeth (giltiau) a stociau benthyciadau cwmnïau, ond nid cyfranddaliadau mewn cwmni neu dystysgrifau Cynilion a Buddsoddiadau cenedlaethol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/accrued-income-scheme-hs343-self-assessment-helpsheet/hs343-accrued-income-scheme-2016

Sylwer - gall hawliadau dim ond cael eu gwneud ar dreth a gymerir o fondiau yn y flwyddyn dreth y mae'r bond yn aeddfedu ynddi ac mae'r llog wedi ei gael yn wirioneddol (oni bai bod y llog wedi ei dalu i mewn i gyfrif ar wahân ar ôl pob blwyddyn y mae'r bond yn bodoli).

3.1 **Llog net a dalwyd gan fanciau, cymdeithasau adeiladu ac ati**

Yn ogystal â llog o fanciau neu gymdeithasau adeiladu, dylech gynnwys llog o dderbynwyr adneuon eraill a llog a delir gan ymddiriedolaethau unedol awdurdodedig (AUT), cwmnïau buddsoddi penagored (OEIC) ac ymddiriedolaethau buddsoddi yn y DU. Gweler blwch 3.6 ar gyfer difidendau o AUTs ac OEICs ac ymddiriedolaethau buddsoddi yn y DU.

3.2 **Treth a ddidynnwyd**
Canlyniad y dreth a ddidynnir o'ch llog gros (y dylid ei gynnwys ym mlwch 3.3) yw eich llog net (blwch 3.1).

3.3 **Swm gros**
Dyma'r swm cyn iddo gael ei drethu. Ar gyfer blynyddoedd treth hyd at 5 Ebrill 2016, byddwch fel arfer yn cael llog ar ôl i'r talwr, er enghraifft y banc neu'r gymdeithas adeiladu, ddidynnu treth (ar 20%). Ers 6 Ebrill 2016, nid yw banciau na chymdeithasau adeiladu yn didynnu treth cyn talu llog. Nodwch y llog gros ym mlwch 3.4. Gall cyfriflenni a llyfrau cyfrifon banciau a chymdeithasau adeiladu ddisgrifio'r taliadau hyn mewn modd gwahanol. Mae angen i chi roi manylion pob cyfrif ar ddalen o bapur ar wahân. Rhowch enw, rhif a chod didoli'r cyfrif, y llog a gafwyd ac unrhyw dreth a ddidynnwyd.

3.4 **Os cewch log sydd heb ei drethu o gwbl**
Os oes gennych gyfrif neu fond sy'n talu llog i chi heb ddidynnu treth - 'cyfrif sy'n talu gros' neu fond - rhowch y llog gros ym mlwch 3.4, ac nid blwch 3.3. Mae hyn yn berthnasol i log a dalwyd ar y rhan fwyaf o gyfrifon banc a chymdeithas adeiladu ar ôl Ebrill 2016, ac ar gyfer llog a geir hyd at Ebrill 2016 pan eich bod wedi llenwi ffurflen R85. Ers mis Ebrill 2016, mae'r ffurflen R85 wedi ei thynnu'n ôl ac mae'r Lwfans Cynilion Personol yn gymwys. Defnyddiwch flwch 3.4 hefyd ar gyfer llog o stociau'r llywodraeth lle rydych wedi dewis cael eich llog wedi ei dalu heb ddidynnu treth. Mae angen i chi roi manylion pob cyfrif ar ddalen o bapur ar wahân. Rhowch enw, rhif a chod didoli'r cyfrif, y llog a gafwyd ac unrhyw dreth a ddidynnwyd.

3.5 **Difidendau cwmnïau yn y DU**
Daeth y Credyd Treth Difidend i ben ar 6 Ebrill 2016 ac mae lwfans rhydd o dreth newydd ar gyfer Incwm Difidend yn gymwys bellach. Ar gyfer pob difidend a geir hyd at Ebrill 2016, bydd pob taleb ddifidend yn dangos daliad eich cyfranddaliadau yn y cwmni, y gyfradd ddifidend, y credyd treth a'r difidend sy'n daladwy. Byddwch yn cael yr wybodaeth hon hyd yn oed os telir eich difidendau'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc neu drwy eich brocer buddsoddiadau. Rhowch gyfanswm pob taliad difidend a gafwyd. Ni allwch hawlio ad-daliad credydau treth ar ddifidendau'r DU.

3.6 **Difidendau o ymddiriedolaethau unedol awdurdodedig (AUTs), cwmnïau buddsoddi penagored (OEICs) ac ymddiriedolaethau buddsoddi yn y DU**
Dylid nodi difidendau a ddosberthir o AUTs, OEICs ac ymddiriedolaethau buddsoddi yn y DU ym mlwch 3.6. Gweler 3.1 ar gyfer llog o AUTs, OEICs ac ymddiriedolaethau buddsoddi yn y DU.

3.7 **Difidendau stoc**
Llenwch y blwch hwn os cawsoch gyfranddaliadau yn lle difidendau arian, yn benodol os cawsoch ddifidend 'stoc'. Dylai'r datganiad gan y cwmni ddangos 'y swm priodol mewn arian parod', neu'r 'cyfwerth mewn arian parod' o gyfalaf cyfranddaliadau, i'w nodi ym mlwch 3.7.

## Incwm ymddiriedolaethau, setliadau ac ystadau

Llenwch flwch 4.1 gyda Chyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR) yr Ymddiriedolaeth. Gallwch ddod o hyd i'r cyfeirnod hwn ar ffurflen R185 (Incwm Ymddiriedolaeth) neu R185 (Setlwr) y mae'r ymddiriedolwyr yn ei rhoi i chi.

4.1 i 4.12

Llenwch flychau 4.2 i 4.9 os cawsoch daliad (neu os cawsoch eich trin fel eich bod yn cael taliad) neu os oedd hawl gennych i incwm o:

- ymddiriedolaeth gronnol neu amodol
- ymddiriedolaeth buddiant mewn meddiant
- setliad
- ystâd person ymadawedig

Blwch 4.8 - nodwch incwm difidend a gafwyd ar neu cyn 5 Ebrill 2016.

Blwch 4.9 - nodwch unrhyw gredyd treth sydd ddim yn daladwy ar incwm difidend.

Blwch 4.10 - nodwch swm gwirioneddol unrhyw incwm a gafwyd o ymddiriedolaeth amodol pan fo buddiant gan y setlwr.

Caiff y swm hwn ei drin fel petai wedi ei drethu ac ni fydd mwy o dreth i'w thalu arno.

Blwch 4.11 - nodwch unrhyw incwm difidend a gafwyd.

Blwch 4.12 - nodwch unrhyw dreth a dalwyd ar incwm difidend.

Peidiwch â nodi incwm o gynlluniau ymddiriedolaeth unedol yn yr adran hon. Os nad oes UTR, rhowch wybod beth yw'r rheswm. Os oes mwy nag un ymddiriedolaeth, rhowch unrhyw UTR ychwanegol ar ddalen ar wahân.

I lawrlwytho'r nodiadau a'r taflenni cymorth ewch i www.gov.uk/cymraeg neu ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900.

**Incwm ymddiriedolaeth**

Defnyddiwch yr wybodaeth o ffurflen R185 (Incwm Ymddiriedolaeth) a roddir i chi gan ymddiriedolwyr yr ymddiriedolaeth. Os nad oes R185 (Incwm Ymddiriedolaeth) gennych, gofynnwch i'ch ymddiriedolwyr i roi un i chi. Os oes gennych gofnod ar fwy nag un llinell o'ch R185 (Incwm Ymddiriedolaeth), dylech nodi ffigurau ar gyfer y swm a'r dreth a dalwyd neu'r credyd treth yn y blychau priodol. Os oes hawl gennych gael incwm sydd heb ei drethu o ymddiriedolaeth, nodwch yr incwm hwnnw yn y blychau sy'n delio â'r math o incwm dan sylw (er enghraifft, llog heb ei drethu ym mlwch 3.4). Os ydych eisiau hawlio'r lwfans masnachu neu'r lwfans incwm o eiddo, nodwch yr incwm ym mlwch 7.4 a'r dreth a dalwyd ym mlwch 7.5. Rhoddir cyfarwyddiadau ar ffurflen R185 (Incwm Ymddiriedolaeth). I gael rhagor o wybodaeth am y lwfans masnachu ac eiddo, ewch i www.gov.uk/guidance/tax-free-allowances-on-property-and-trading-income

**Incwm setliad**

Mae setliadau'n cynnwys ymddiriedolaethau a threfniadau pan nad ydynt yn ymddiriedolaethau. Os ydych wedi darparu arian ar gyfer setliad, gellir trethu'r incwm fel eich incwm chi at ddibenion treth.

Er enghraifft os:

- gallwch chi neu eich priod neu eich partner sifil elwa o ymddiriedolaeth yr ydych yn setlwr ohoni (un lle y gwnaethoch ddarparu'r arian)
- gwnaethoch roi asedion neu arian yn rhodd i blentyn dan oed dibriod ac mae'r incwm sy'n codi o'r holl roddion hyn yn uwch na £100 (cyn treth) mewn unrhyw flwyddyn

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/trusts-and-settlements-income-treated-as-the-settlors-hs270-self-assessment-helpsheet

**Incwm ystâd**

Mae hwn yn incwm o ystâd person ymadawedig. Os ydych wedi cael ased sydd wedi cynhyrchu incwm (er enghraifft, cyfrif banc neu eiddo ar osod) ac mae gennych hawl i'r incwm hwnnw o ddyddiad marwolaeth yr ymadawedig, cynhwyswch ef ar eich ffurflen yn y blychau sy'n delio â'r math o incwm dan sylw. (Er enghraifft, nodwch fanylion llog o'r banc ym mlychau 3.1 i 3.3.)

**Buddiolwyr y gweddill**

Mae rheolau arbennig yn berthnasol i'r incwm o ystâd person ymadawedig a delir i chi os ydych yn fuddiolwr gyda buddiant yn y gweddill. Rhowch yr wybodaeth o'r R185 (Incwm ystâd) a gawsoch o'r cynrychiolwyr personol.

## Tir ac eiddo yn y DU

**Incwm**

5.1 Mae angen i chi lenwi Ffurflen Dreth os yw eich incwm net o dir ac eiddo'r DU yn fwy na £2,500. Nodwch ym mlwch 5.1 gyfanswm yr incwm a gawsoch o dir rydych yn berchen arno, neu o eiddo rydych yn ei roi ar osod. Os ydych yn berchen ar eiddo ar y cyd gyda'ch priod neu eich partner sifil, fel arfer caiff yr incwm a'r dreth eu rhannu ar sail 50/50. Os ydych yn berchen ar eiddo mewn cyfrannau anghyfartal ac rydych wedi gwneud dewis dilys ar ffurflen 17, nodwch yr incwm a'r dreth ar y sail anghyfartal.

Os yw eich cyfran o incwm gros o eiddo (cyn treuliau) yn fwy na £10,000 mae angen i chi lenwi Ffurflen Dreth.

Os ydych yn gosod eiddo ar y cyd gyda rhywun arall, nodwch eich cyfran chi yn unig.

**Eich cartref eich hun – 'Rhentu Ystafell'**

Os ydych yn gosod ystafell (neu ystafelloedd) yn eich cartref eich hun (ond nid os yw'r ystafell yn cael ei defnyddio fel swyddfa), does dim rhaid i chi sôn wrthym am hyn, cyhyd â bod cyfanswm y rhent a gewch yn llai na £7,500 yn y flwyddyn (£3,750 os ydych yn rhannu'r incwm gyda rhywun arall).

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/letting-rooms-in-your-home-a-guide-for-resident-landlords

5.2 **Treuliau a ganiateir at ddibenion treth**

Yn gyffredinol, gallwch naill ai hawlio'r gost i chi o roi'ch eiddo, tir ac ati ar osod neu gallwch wneud hawliad i ddidynnu'r lwfans eiddo o £1,000. Ni allwch hawlio'r treuliau a'r lwfans eiddo gyda'i gilydd.

Mae'r Daflen Waith isod yn rhestru'r mathau mwyaf cyffredin o dreuliau. Peidiwch â chynnwys y gyfran sy'n cynrychioli eich defnydd personol. Peidiwch â hawlio unrhyw dreuliau personol na chostau cyfalaf.

**Taflen Waith**

| | |
|---|---|
| Rhent, trethi, yswiriant, rhent tir a dalwch | £ |
| Atgyweiriadau a chynnal a chadw'r eiddo | £ |
| Taliadau ariannol, gan gynnwys llog ar fenthyciad a ganiateir* (gweler isod) | £ |
| Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol** (gweler isod) | £ |
| Costau unrhyw wasanaethau a ddarparwch, er enghraifft glanhau | £ |
| Y gost o adnewyddu eitemau domestig - ar gyfer gosod eiddo preswyl yn unig | £ |
| Eraill, er enghraifft hysbysebu, deunydd ysgrifennu, lwfans eiddo*** (gweler isod) | £ |
| **Cyfanswm (cop wch i flwch 5.2)** | £ |

*Costau ariannol: Os oes gennych gostau ariannol sy'n gysylltiedig ag eiddo preswyl, ni fydd peth o'r costau hyn yn ganiataol fel treuliau at ddibenion treth. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/guidance/changes-to-tax-relief-for-residential-landlords-how-its-worked-out-including-case-studies
Os ydych yn gymwys ar gyfer gostyngiad treth yn ymwneud â chostau ariannol eiddo preswyl nad ydynt yn ganiataol fel treuliau, yna ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900, gan ddyfynnu 'Rhyddhad Landlordiaid'.
Fel arall, os ydych yn meddwl y bydd angen i chi gofrestru y flwyddyn nesaf ar gyfer Hunanasesiad oherwydd eich incwm o osod eiddo, efallai y byddwch am gofrestru y flwyddyn hon yn hytrach na llenwi'r ffurflen hon. I gael rhagor o fanylion, ewch i www.gov.uk/renting-out-a-property/paying-tax

**Dylech eithrio'r treuliau cyfreithiol a phroffesiynol o osod am y tro cyntaf, os ydyw am fwy nag un flwyddyn: mae hyn yn cynnwys y costau cyfreithiol o lunio prydles, neu ganiatâd cynllunio. Fodd bynnag, gallwch hawlio'r gost o adnewyddu prydles.
***Lwfans Eiddo: Gallwch hawlio hyd at £1,000 yn hytrach na didynnu treuliau. Os oes gennych fwy nag un busnes eiddo, (er enghraifft busnes yn y DU a busnes tramor), yna caiff yr incwm o'r ddau fusnes ei gyfuno a dim ond un lwfans o £1,000 sydd ar gael. Ni allwch hawlio mwy na'r incwm a ddangosir ym mlwch 5.1.
I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/guidance/tax-free-allowances-on-property-and-trading-income

5.3 **Elw**

Nodwch ym mlwch 5.3.

5.4 **Colled**

Nodwch ym mlwch 5.4, 5.2 llai blwch 5.1.

5.5 **Colledion tir ac eiddo a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach**

Byddwn yn didynnu'r colledion a ddygwyd ymlaen o'r elw (blwch 5.3). Os gwnaethoch golled (blwch 5.4), dylech ei ychwanegu at y colledion sydd gennych eisoes ac a ddygwyd ymlaen gan nodi'r cyfanswm yn y blwch hwn ar ffurflen y flwyddyn nesaf.

## Incwm tramor

Dylid datgan incwm difidend tramor a gafwyd sy'n £2,000 neu'n llai, ar y ffurflen hon. Ar gyfer symiau mwy, bydd angen i chi lenwi Ffurflen Dreth Hunanasesiad.

6.1 i 6.12

Os cawsoch ddifidendau tramor, incwm o eiddo tramor neu unrhyw incwm tramor arall (gan gynnwys pensiynau), llenwch flychau 6.1 i 6.12. Os oes gennych hawl absoliwt i'r incwm o ymddiriedolaeth ddibreswyl yn y DU, neu os cewch incwm o ystâd dramor, nodwch yr wybodaeth ym mlychau 6.1 i 6.12, yn unol â natur yr incwm. Troswch yr incwm gros tramor ac unrhyw dreth a ddidynnwyd i'r cyfwerth mewn sterling. Nid yw treth dramor a dalwyd gennych yn ad-daladwy yn y DU, ond efallai y bydd hawl gennych i Ryddhad Credyd Treth Dramor a fydd yn gostwng treth y DU a godir ar eich incwm tramor.

Ym mlychau 6.1 a 6.3 peidiwch ag ychwanegu'r credyd treth ar gyfer difidendau. Ni allwch hawlio ad-daliad o gredydau treth ar ddifidendau tramor.

Os ydych yn hawlio treuliau eiddo tramor ac yn gymwys ar gyfer gostyngiad treth yn ymwneud â chostau ariannol eiddo preswyl nad ydynt yn ganiataol fel treuliau, yna ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900, gan ddyfynnu 'Rhyddhad Landlordiaid'. Os ydych yn hawlio treuliau eiddo tramor, ni allwch hefyd hawlio'r lwfans eiddo.

Os yw'r cwmni yn gronfa alltraeth ac mae mwy na 60% o asedion wedi eu buddsoddi mewn asedion sy'n dwyn llog, rhaid i chi nodi'r difidendau hyn ym mlwch 6.8, nid 6.1.
Nid oes gennych hawl i gredyd treth ar gyfer y difidendau hyn.

O fis Ebrill 2017 ymlaen, trethir incwm pensiwn tramor ar yr un gyfradd dreth ag incwm pensiwn y DU.

Os yw'r incwm yn deillio o fwy nag un wlad, rhowch y manylion ychwanegol.

Os oes gennych fwy nag un busnes eiddo, (er enghraifft busnes yn y DU a thramor), yna caiff yr incwm o'r ddau fusnes ei gyfuno a dim ond un lwfans o £1,000 sydd ar gael. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn 5.2 Treuliau a ganiateir at ddibenion treth.

## Unrhyw incwm a budd-daliadau eraill

7.1 i 7.3 **Enillion digwyddiadau trethadwy**

Os gwnaethoch unrhyw enillion ar bolisïau yswiriant bywyd, blwydd-daliadau bywyd neu bolisïau adbrynu cyfalaf yn y DU, neu os cawsoch ad-daliadau o arian dros ben

Os ydych wedi cael buddiant gan eich bod yn berchen ar, neu wedi cyfrannu at gaffael, eiddo (ased yr oeddech yn berchen arno'n flaenorol), cysylltwch â ni.

drwy gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol, efallai y bydd angen i chi lenwi blychau 7.1 i 7.3. Yn unol â'r gyfraith, rhaid i yswirwyr yn y DU roi tystysgrif pan fydd 'ennill' wedi'i wneud. Defnyddiwch yr wybodaeth ar eich tystysgrif i gwblhau blychau 7.1 i 7.3. Os cewch incwm o ystâd mewn perthynas ag enillion a wnaed ar bolisïau yswiriant penodol, defnyddiwch yr wybodaeth ar eich ffurflen R185 (Incwm Ystâd) i gwblhau blychau 7.1 i 7.3. Caiff y mwyafrif o enillion ar bolisïau yswiriant y DU eu trin fel petai'r dreth wedi ei didynnu; nid yw'r dreth hon yn ad-daladwy.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/gains-on-uk-life-insurance-policies-hs320-self-assessment-helpsheet

Ni chaiff y mwyafrif o enillion ar bolisïau yswiriant tramor eu trin fel petai'r dreth wedi ei didynnu. Llenwch flychau 6.10 a 6.11 os gwnaethoch 'ennill' o bolisi tramor.

Os gwnaethoch enillion ar fwy nag un polisi, naill ai yn y DU neu dramor, rhowch fanylion ychwanegol.

7.4 i 7.6 **Incwm a budd-daliadau eraill**

Defnyddiwch flychau 7.4 i 7.6 ar gyfer incwm a budd-daliadau trethadwy eraill a gawsoch yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill. Os gwnaethoch ohirio cael Pensiwn y Wladwriaeth ac rydych wedi cael cyfandaliad, nodwch y swm a gafwyd ym mlwch 7.4 a'r dreth a ddidynnwyd ym mlwch 7.5. Dim ond un math o incwm y dylid ei nodi yma.

## Rhodd Cymorth

8.1 i 8.4 Mae Rhodd Cymorth yn rhyddhad treth ar gyfer rhoddion arian parod i elusennau a Chlybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol (CChAC) yn y DU. Bydd yr elusen neu'r CChAC yn gofyn i chi roi datganiad i gadarnhau eich bod yn talu Treth Incwm a/neu Dreth Enillion Cyfalaf y DU - wedyn gallant hawlio'r dreth yn ôl oddi wrthym. Os na fyddwch wedi talu swm Treth Incwm neu Dreth Enillion Cyfalaf y DU sy'n gyfartal â'r swm y bydd yr elusen neu'r CChAC yn ei hawlio fel ad-daliad ar eich rhodd, byddwn yn gofyn i chi dalu'r gwahaniaeth (fel arfer drwy ei gynnwys yn eich cyfrifiad treth).

Os talwch dreth ar y gyfradd uwch gallwch hawlio rhyddhad treth - mae'r cyfrifiad treth yn ei gyfrifo drosoch.

Os cawsoch eich geni cyn 6 Ebrill 1938, gallai eich taliadau Rhodd Cymorth leihau eich bil treth, felly llenwch flwch 1.1 - bydd angen eich dyddiad geni arnom i gyfrifo eich lwfansau personol rhydd o dreth yn gywir.

8.1 **Taliadau Rhodd Cymorth a wnaed ym mlwyddyn yr hawliad**

Nodwch y symiau gwirioneddol a roddwyd i elusen. Peidiwch â chynnwys unrhyw daliadau o dan 'Rhoi drwy'r gyflogres' (ym mlwch 8.1 neu unrhyw fan arall ar eich ffurflen); caiff y taliadau hynny eu didynnu o'ch cyflog cyn i'ch cyflogwr ei drethu.

8.2 **Taliadau Rhodd Cymorth a wnaed ym mlwyddyn yr hawliad ond a chawsant eu trin fel petaent wedi eu gwneud yn y flwyddyn flaenorol (heb eu cynnwys ym mlwch 8.1)**

Os ydych eisoes wedi gofyn i ni drin taliadau a wnaed ym mlwyddyn yr hawliad fel petaent wedi eu gwneud yn y flwyddyn flaenorol, nodwch y taliadau hynny ym mlwch 8.2.

8.3 **Cyfanswm y taliadau unigol a gynhwyswyd ym mlwch 8.1**

I'n helpu i gael eich cod treth TWE yn gywir, os oes gennych un, nodwch ym mlwch 8.3 unrhyw daliadau unigol a gynhwyswyd ym mlwch 8.1. Bydd y rhain yn daliadau Rhodd Cymorth a wnaed ym mlwyddyn yr hawliad, ac nid yw'n fwriad gennych eu talu yn y flwyddyn ddilynol.

8.4 **Taliadau Rhodd Cymorth a wnaed ar ôl diwedd blwyddyn yr hawliad ond a chawsant eu trin fel petaent wedi eu gwneud yn y flwyddyn honno**

Gallwch drin taliadau Rhodd Cymorth a wnaed ar ôl diwedd blwyddyn yr hawliad ond cyn y 31 Ionawr dilynol fel petaent wedi eu gwneud ym mlwyddyn yr hawliad, ar yr amod eich bod yn gwneud hynny erbyn 31 Ionawr. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.gov.uk/donating-to-charity

**Rhyddhad arall**

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.gov.uk/income-tax-reliefs

## Lwfans Person Dall

9.1 i 9.2 Os ydych yn byw yng Nghymru neu Lloegr ac:

- rydych wedi eich ardystio i fod yn ddall neu fod gennych nam difrifol ar eich golwg gan arbenigwr llygaid
- rydych ar gofrestr awdurdod lleol fel person dall (â nam difrifol ar eich golwg) rhowch 'X' ym mlwch 9.1 a nodwch enw'r awdurdod lleol ym mlwch 9.2

Os ydych yn byw yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon ac:

- rydych ar gofrestr, rhowch 'X' ym mlwch 9.1 a nodwch enw'r awdurdod lleol ym mlwch 9.2
- nad ydych ar gofrestr ond mae eich golwg mor wael ei fod yn eich rhwystro rhag gwneud gwaith lle mae golwg yn hanfodol, rhowch 'X' ym mlwch 9.1 a nodwch 'Yr Alban' neu 'Gogledd Iwerddon' ym mlwch 9.2

## Lwfans Pâr Priod

**Trosglwyddo Lwfans Person Dall sydd heb ei ddefnyddio**

Gellir trosglwyddo unrhyw Lwfans Person Dall sydd heb ei ddefnyddio i'ch priod neu eich partner sifil. Os ydych am drosglwyddo unrhyw lwfans sydd heb ei ddefnyddio, rhowch 'X' ym mlwch 10.6.

**Lwfans Pâr Priod**

Gallwch hawlio'r lwfans hwn os yw'r canlynol i gyd yn gymwys:

- rydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- rydych yn byw gyda'ch priod neu bartner sifil
- ganed un ohonoch cyn 6 Ebrill 1935

Ar gyfer priodasau cyn 5 Rhagfyr 2005, defnyddir incwm y gŵr i gyfrifo'r Lwfans Pâr Priod. Rhoddir y lwfans ar 10% ac mae'n bosibl y gall ostwng swm y dreth y byddwch yn ei dalu.

10.6 **Trosglwyddo lwfansau sydd heb eu defnyddio**

Os oes gennych Lwfans Pâr Priod neu Lwfans Person Dall sydd heb ei ddefnyddio ar gyfer blwyddyn yr hawliad ac os hoffech i ni ei drosglwyddo i'ch priod neu eich partner sifil, rhowch 'X' ym mlwch 10.6.

## Cyfarwyddiadau ar gyfer ad-daliadau

Os byddwn yn cyfrifo bod ad-daliad yn ddyledus, gallwn anfon siec yn uniongyrchol:

11.1

- atoch chi yn eich cyfeiriad cartref
- at gyfeiriad eich enwebai (llenwch flychau 11.1 a 11.2)

Os ydych am i'ch ad-daliad gael ei dalu i enwebai, gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi cyfeiriad llawn, gan gynnwys y cod post i ni.

Dim ond i gyfrif sydd yn eich enw chi neu yn enw'ch enwebai y gall y siec y byddwn yn ei hanfon gael ei thalu.

Ni ellir gwneud ad-daliadau drwy gyfrwng Bacs (Bankers Automated Clearing Service).

## Datganiad

**Os ydych wedi llofnodi ar ran rhywun arall**

12.2 Gallwch hawlio ar ran:

- plentyn dan oed dibriod (rhywun o dan 16 oed yn yr Alban neu dan 18 mewn man arall) - ni all nain/mam-gu na thaid/tad-cu lofnodi ar ran ŵyr/wyres oni bai mai hi/ef yw'r gwarcheidwad cyfreithiol
- person sy'n anabl yn feddyliol
- unigolyn sydd wedi caniatáu'r awdurdod i chi weithredu ar ei ran
- rhywun sydd wedi marw - mae'r Pŵer Atwrnai a oedd ar waith yn dod i ben ar ôl i rywun farw, felly mae'n rhaid i ysgutor neu weinyddwr lofnodi'r ffurflen.

Sylwer - nid yw ffurflen 64-8 yn rhoi awdurdod i lofnodi'r R40; rhaid bod gan y person sy'n arwyddo bŵer atwrnai.

Dylai hawliadau gael eu gwneud gan y canlynol:

- rhiant neu warcheidwad ar ran plentyn dan oed dibriod
- twrnai a awdurdodwyd gan Bŵer Atwrnai cyffredin neu gyffredinol
- ysgutor neu weinyddwr ystâd rhywun a fu farw (bydd yr hawliad yn ymwneud ag incwm hyd at ddyddiad y farwolaeth yn unig)

Dylai'r rheiny sydd bellach yn 16 mlwydd oed a hŷn (yn yr Alban) neu 18 (mewn man arall) lenwi'r ffurflen hon eu hunain.

## Eich hawliau a'ch rhwymedigaethau

Mae 'Siarter CThEF' yn esbonio'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i ewch i www.gov.uk/government/publications/hmrc-charter.cy

Mae CThEF yn Rheolwr Data o dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a nodir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys at ddibenion asesu a chasglu trethi a thollau, talu budd-daliadau ac atal a chanfod troseddau, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw un o'r dibenion hynny. Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill, neu efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth iddyn nhw. Os gwnawn hynny, bydd yn unol â'r hyn y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu yn unig, a hynny er mwyn gwneud y canlynol:

- gwirio cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- diogelu arian cyhoeddus

Efallai y byddwn yn cymharu gwybodaeth a gawn amdanoch â'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gallai hynny gynnwys gwybodaeth a roddwyd gennych chi, yn ogystal â chan eraill, megis adrannau neu asiantaethau eraill y llywodraeth ac awdurdodau treth a thollau tramor. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw un y tu allan i CThEF oni fydd y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny.